

---

## **BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

### **21.6.19**

---

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais – Y Cyngorwyr:- Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych), Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ian Roberts (Cyngor Sir y Fflint), Sam Rowlands (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Dyfrig L.Siencyn (Cyngor Gwynedd).

Ymgynghorwyr – Dafydd Evans (Grŵp Llandrillo Menai), Maria Hinfelaar (Prifysgol Glyndŵr), Yr Athro Graham Upton (Prifysgol Bangor), Steve Jackson (Coleg Cambria), Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy) ac Askar Sheibani (Bwrdd Cyflawni Busnes).

Swyddogion yn bresennol - Iwan Evans (Swyddog Monitro), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol) ac Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol).

#### **1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cyngorydd Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) yn Gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20.

#### **2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cyngorydd Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) yn Is-gadeirydd y Cyd-bwyllgor ar gyfer 2019/20.

#### **3. YMDDIHEURIADAU**

Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Iwan Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Sasha Davies (Bwrdd Cyflawni Busnes), Dafydd Edwards (Cyngor Gwynedd) a David Jones (Coleg Cambria).

#### **4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

#### **5. MATERION BRYD**

Dim i'w nodi.

#### **6. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 17 Mai, 2019 fel rhai cywir.

#### **7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r

**paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma fyddai'n gorbwyso hawliau'r unigolion yma. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

## **8. PENODI CYFARWYDDWR RHAGLEN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y Corff Atebol.

**PENDERFYNWYD i gynnig y swydd i Mr Iwan Trefor Jones, gan awdurdodi Prif Weithredwr y Corff Atebol, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd i gadarnhau yr amodau a'r telerau yn unol â chyfarwyddyd y Cyd-bwyllgor.**

### **RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Gweithredu i benodi Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer y Cynllun Twf.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 5.30 y.h.

## **CADEIRYDD**